# Gêm Gyfri Gylfinir

Mae gylfinirod ar y rhestr goch: mae hyn yn golygu eu bod mewn perygl o ddiflannu. Maent yn adeiladu nythod ar y ddaear ac yn cael eu peryglu gan lawer o sefyllfaoedd posibl. Mae'r gêm hon yn helpu plant (ac oedolion) i ddeall beth yw'r peryglon hyn a beth allwn ni ei wneud i helpu'r rhywogaeth hon i oroesi.

## Bydd angen:

- Lle i symud, yn ddelfrydol yn yr awyr agored.

**'Nyth/od'**


- Angen rhaffau / cylchoedd/tarp neu raff hir i wneud un nyth mawr - wedi'i osod mewn cylch/oedd a'u gosod allan mewn man chwarae i fod yn nyth/od i'r gylfinirod.
- Gwnewch yn siŵr bod digon o le i bawb fod yn gyfforddus yn eu nyth ar ddechrau'r gêm.

**Rhestr o sefyllfaoedd**

- Wedi eu darparu isod



# I chwarae'r gêm:



1

1. Mae'r athro/arweinydd grŵp yn esbonio lle mae'r nythod. Mae'r plant yn mynd i mewn i'r nythod yn ofalus.
2. Mae plant yn esgus eu bod yn 'gylfinirod' a phan fydd yr arweinydd yn galw neu'n arwyddo 'Amser bwydo' mae'r plant yn symud o gwmpas yr ardal chwarae gan esgus chwifio yn y mwd trwchus gyda'u coesau hir i chwilio am eu bwyd neu siglo eu hadenydd i hedfan yn ofalus o amgylch yr ardal chwarae.
3. Pan fydd yr arweinydd yn gweiddi neu'n arwyddo 'Nythod' – rhaid i'r plant ddychwelyd i'w nyth/od yn bwyllog.
4. Bydd angen ymarfer cwpl o weithiau i wirio bod y plant yn deall y gêm ac yn cadw'n dawel.

2

1. Nesaf: Cyflwyno sefyllfaoedd, un ar y tro – gallwch ddewis yn bositif neu'n negyddol. Rhaid i'r 'gylfinirod' weithio gyda'i gilydd i helpu cymaint ag y gallant i ddal i ffitio i'r nyth.
2. Os yw'r senario yn cael effaith negyddol ar y gylfinirod: rhaid i arweinydd dynnu nyth / lleihau arwynebedd y nyth fawr (cylch rhaff neu darp). O na!
3. Os yw'r senario yn cael effaith gadarnhaol ar y gylfinirod: rhaid i arweinydd ychwanegu nyth/cynyddu arwynebedd y nyth fawr (cylch rhaff neu darp). Hwre!
4. Gall unrhyw blant nad ydynt yn gallu ffitio i nyth aros gyda'r arweinydd nes bod senario cadarnhaol a gallant ailymuno â'r gêm.
5. Yn ddelfrydol dylid gorffen ar y pethau positif, felly mae'r plant i gyd yn ôl yn y gêm ac mae'r canlyniad terfynol yn dda i'r gylfinirod. Fodd bynnag, mae'r dysgu yn y senarios negyddol yn ogystal â'r cadarnhaol.

## Sefyllfa negyddol

(Tynnwch nyth/ardal i ffwrdd)

Mae ci sydd ddim ar dennyn yn tarfu ar y nyth ar y ddaear. (Doedd o ddim yn sylweddoli ei fod yn gwneud rhywbeth drwg.)

*Rhaid i bob ci fod ar dennynnau rhwng Mawrth 31 a Gorffennaf 31.*

Mae cerddwyr yn crwydro oddi ar y llwybr troed ac yn tarfu ar y nyth.

*Cadwch at lwybrau troed os gwelwch yn dda.*

Rhybudd ysglyfaethwr ! Mae llwynogod, brain ac adar eraill yn tarfu ar y nyth.

*Gall gylfinirod hedfan i ffwrdd ond mae'n rhaid i'r wyau ddeori am 28 diwrnod ac mae'r cywion yn cymryd 28 diwrnod arall cyn hedfan y nyth.*

*Mae sbwriel yn gallu niweidio gylfinirod.*

*Peidiwch byth â gollwng sbwriel,ewch ag ef adref, neu hyd yn oed yn well, ei ailgylchu.*

## Sefyllfa gadarnhaol

(Ychwanegu nyth/ardal)

Mae perchnogion cŵn yn cael gwybod am adar sy'n nythu ar y tir fel eu bod i gyd yn deall pam fod yn rhaid iddynt gadw eu cŵn ar y dennyn i gadw'r nythod, yr wyau a'r cywion yn ddiogel yn ystod Ebrill - Medi.

Mae cerddwyr yn dysgu am y Cod Cefn Gwlad o'r cyfryngau cymdeithasol ac yn deall sut y gall cadw at lwybrau achub adar sy'n nythu ar y ddaear.

Mae cuddliw ardderchog yr wyau gylfinir a'r cywion yn eu cadw'n ddiogel rhag ysglyfaethwyr.

*Gall glaswellt hir, heb ei dorri helpu'r gylfinirod i aros yn gudd.*

Mae plant ledled Cymru yn cymryd rhan yn Wythnos Dysgu Awyr Agored Cymru ac yn dysgu llawer am sut i gadw ein hadar sy'n nythu ar y tir yn ddiogel.

# Sefyllfa negyddol

## (Tynnwch nyth/ardal i ffwrdd)

*Mae'r tywydd yn rhy sych a'r pyllau a'r mawndiroedd yn sychu i fyny felly ychydig iawn o fwyd sydd i'r gylfinirod.*

*Mae gylfinirod yn dibynnu ar ardaloedd ucheldirol gwlyb, corsiog i fwydo. Mae newid yn yr hinsawdd yn gwneud y tywydd yn fwy anodd ei ragweld.*

*Mae'r tywydd yn rhy sych a'r pyllau a'r mawndiroedd yn sychu i fyny felly ychydig iawn o fwyd sydd i'r gylfinirod*

*Mae gylfinirod yn dibynnu ar ardaloedd ucheldirol gwlyb, corsiog i fwydo. Mae newid yn yr hinsawdd yn gwneud y tywydd yn fwy anodd ei ragweld.*

*Mae coed yn dda i'r amgylchedd, ond mae coed newydd wedi'u plannu yn y lle anghywir gan gymryd cynefin pwysig sydd ei angen ar y gylfinirod*

*Mae angen plannu coed yn y lle iawn.*

# Sefyllfa gadarnhaol

## (Ychwanegu nyth/ardal)

*Mae ffens drydanol yn cael ei gosod o amgylch y nyth.*

*Mae gwirfoddolwyr yn helpu'r gylfinirod trwy gasglu data am ble maen nhw er mwyn iddyn nhw allu gosod ffensys trydan i atal ysglyfaethwyr a chadw cerddwyr i ffwrdd i ddiogelu'r nyth.*

Mae ffens drydanol yn cael ei gosod o amgylch y nyth.

*Mae gwirfoddolwyr yn helpu'r gylfinirod trwy gasglu data am ble maen nhw er mwyn iddyn nhw allu gosod ffensys trydan i atal ysglyfaethwyr a chadw cerddwyr i ffwrdd i ddiogelu'r nyth.*

Mae ffermwyr yn gweithio i adfer cynefinoedd y glaswelltir i helpu'r gylfinirod.

Cysylltu Gylfinir Cymru • Curlew Connections Wales

Bannau Brycheiniog